# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR ABERMAW**

Date and Time

**10.30 y.b., DYDD IAU, 15FED HYDREF, 2015**

Lleoliad

**Parlwr Mawr, Theatr y Ddraig, Canolfan Cymunedol Abermaw, Jubilee Road, Abermaw, Gwynedd. LL42 1EF**

Pwynt Cyswllt

**Glynda O'Brien**

**01341 424301**

**glyndaobrien@gwynedd.gov.uk**

(DOSBARTHWYD Dydd Mercher, 7 Hydref 2015)

## AELODAETH:

### Cyngor Gwynedd:

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Gethin Glyn Williams | Aelod Lleol dros Abermaw |
| YCynghorydd Louise Hughes | Aelod Lleol dros Llangelynnin |
| Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams | Aelod Lleol dros Dyffryn Ardudwy |

### Aelodau Cyfetholedig:

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Lark Davies | Aelod o Gyngor Tref Abermaw |
| Y Cynghorydd R A Williams | Aelod o Barmouth Resort Improvement Group |
| Y Cynghoyrdd Julian Kirkham | Aelod o Gyngor Cymuned Arthog |
| Dr John Smith | Aelod o Barmouth Viaduct Access Group |
| Wendy Ponsford | Aelod o Glwb Hwylio Merioneth |
| John Johnson | Aelod o Gymdeithas Pysgodfeydd Mor Abermaw a Bae Ceredigion |
| Mark James | Aelod o Gymdeithas y Bad Achub |
| Martin Parouty | Aelod o Grwp Defnyddwyr Harbwr a Moryd Abermaw |

### Sylwedyddion:

| | |
|---|---|
| Councillor David Richardson | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi |
| Dr John Jones-Morris | Pwyllgor Ymgynghorydd Harbwr Porthmadog |

# RHAGLEN

## 1. ETHOL CADEIRYDD

I ethol Cadeirydd i'r Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2015-16.

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

I ethol Is-gadeirydd i'r Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2015-16.

## 3. YMDDIHEURIADAU

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

## 5. COFNODION 1 - 8

I dderbyn a nodi cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw gynhaliwyd ar y 19 Mawrth 2015.

## 6. ADRODDIAD Y SWYDDOG MORWROL 9 - 21

I dderbyn ac ystyried adroddiad y Swyddog Morwrol, Mr Barry Davies.

## 7. MATERION I'W HYSTYRIED AR GAIS AELODAU O'R PWYLLGOR YMGYNGHOROL

I dderbyn adroddiadau llafar gan y swyddogion priodol ar y materion canlynol:

- Lansio o Pwynt Penrhyn – Statws Yswiriant. Trefniadau monitro.
- Dyddodiad tywod a siltio parhaus
- Marciau Mordwyo
- Pontwn
- Cau Pont Abermaw i gerddwyr

## 8. DYDDIAD CYFARFOD NESAF

I nodi y cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw ar 22 Mawrth 2016.

**Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw gynhaliwyd ar y 19 Mawrth 2015 yn Theatr y Ddraig, Abermaw**

**YN BRESENNOL**

**Y Cynghorydd Gethin Glyn Williams – Cadeirydd**
**Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams – Is-gadeirydd**

Y Cynghorydd Louise Hughes (Cyngor Gwynedd), Y Cyng. Mike Scott (Cyngor Cymuned Arthog), Y Cyng. Mark James (Cymdeithas y Bad Achub), Mr John Johnson (Cymdeithas Pysgodfeydd Môr Abermaw a Cheredigion), Mr Salmon Williams (Clwb Hwylio Meirionnydd), Mr Llew Griffin (Grwp Defnyddwyr Harbwr Abermaw), Mr Mike Ellis (Pwyllgor Ras y Tri Chopa), Dr John Smith (Grwp Mynediad Traphont Abermaw)

Swyddogion

| | | |
|---|---|---|
| Mr Llŷr B. Jones | - | Uwch Reolwr Economi a Chymuned |
| Mr Barry Davies | - | Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig |
| Mr Arthur Jones | - | Uwch Swyddog Harbyrau |
| Mr Glyn Jones | - | Harbwr Feistr Abermaw |
| Mr Huw Davies | - | Uwch Beiriannydd |
| Mr Alun Jones | - | Prif Beiriannydd |
| Mrs Glynda O'Brien | - | Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu |
| Mrs Mererid Watt | - | Cyfieithydd |

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd Mandy Williams-Davies (Aelod Cabinet Economi), Mrs Wendy Ponsford (Clwb Hwylio Meirionnydd), Y Cyng. Rob Williams (BRIG), Y Cyng. David Richardson (Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi).

## 1. CROESO

Croesawyd yr aelodau newydd canlynol i'r cyfarfod:

- Mr Salmon Williams (Clwb Hwylio Meirionnydd) – ar ran Mrs Wendy Ponsford
- Mr Michael Ellis ar ran pwyllgor Ras y Tri Chopa
- Dr John Smith ar ran Grwp Mynediad Traphont Abermaw
- Y Cyng. Mike Scott ar ran Cyngor Cymuned Arthog
- Mr Arthur Jones a oedd wedi ei benodi yn ddiweddar i'r swydd Uwch Swyddog Harbyrau
- Mr Alun Jones, Prif Beiriannydd

## 2. DATGAN CYSYLLTIAD PERSONOL

Derbyniwyd datganiad o gysylltiad personol gan yr aelodau isod oherwydd eu bod yn Aelodau o'r Clwb Hwylio:

(i) Y Cyng. Gethin Glyn Williams
(ii) Dr John Smith
(iii) Mr Salmon Williams
(iv) Mr Mike Ellis

(v) Mr Llew Griffin

2. **COFNODION**

**Cyflwynwyd:** Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw gynhaliwyd ar y 16 Hydref 2014 yn ddarostyngedig i'r cywiriad isod:

Eitem 6 (C) (ii) - Mai'r bwriad ydoedd sefydlu corff elusennol "Charitable Incorporated Organisation" gyda ymddiriedolwyr a fyddai'n cynnwys cynghorwyr ac aelodau'r gymuned gyda'r bwriad o gymryd drosodd rhai o asedau'r Cyngor.

**Penderfynwyd: Derbyn a chymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir.**

3. **ADRODDIAD Y SWYDDOG MORWROL**

**Cyflwynwyd:** Adroddiad y Swyddog Morwrol, Mr Barry Davies ar weithgareddau harbwr Abermaw gyda chyfeiriad penodol at y canlynol:-

**(A) Cod Diogelwch Harbyrau**

Atgoffwyd Aelodau bod y Cod Diogelwch eisoes wedi ei fabwysiadu gydag Aelodau wedi derbyn copi ohono. Fe fyddir yn adolygu'r côd yn flynyddol ac yn derbyn archwiliad gan swyddog annibynnol o Harbwr Caernarfon i sicrhau bod cydymffurfiad gyda chanllawiau'r cod.

Nododd yr Aelodau canlynol nad oedd ganddynt gopi o'r côd ac addawodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y byddai'n anfon copi iddynt:

Dr John Smith, Grwp Mynediad Traphont Abermaw
Mr John Johnson, Cymdeithas Pysgodfeydd Môr Abermaw a Bae Ceredigion
Mr Mike Ellis, Pwyllgor Ras y Tri Chopa

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(B) Pwyllgorau Ymgynghorol Harbyrau – Cylch Gorchwyl ac Aelodaeth**

Atgoffwyd yr Aelodau o'r angen i gysoni cylch gorchwyl ac aelodaeth pob Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr y Cyngor a chyfeiriwyd at ohebiaeth a ddanfonwyd i bob sefydliad gan y Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu a'r angen i gyfyngu nifer o'r sefydliadau i wasanaethu ar y Pwyllgorau Ymgynghorol Harbyrau i 7. Nodwyd ymhellach pe byddai mwy na 7 sefydliad yn dangos diddordeb mai mater i'r Aelod Cabinet Economi fyddai dewis yr aelodaeth derfynol. Cyfeiriwyd at yr ymateb a dderbyniwyd hyd yma gan nodi'r angen i'r sefydliadau isod anfon y wybodaeth angenrheidiol i'r Swyddog Cefnogi Aelodau yn ddi-oed:

| | |
|---|---|
| Cymdeithas Pysgodfeydd Môr Abermaw a Bae Ceredigion | Cyfansoddiad a chofnodion blynyddol |
| Clwb Hwylio Meirionnydd | Cofnodion blynyddol |
| Grwp Defnyddwyr Harbwr Abermaw | Cofnodion blynyddol |
| Bad Achub | Cofnodion os oes Cyfarfodydd lleol yn cael eu cynnal |

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod ac edrych ymlaen am gadarnhad maes o law gan yr Aelod Cabinet Economi o'r aelodaeth derfynol.**

**(C) Mordwyo ac Angorfeydd**

(i) Derbyniwyd 68 ffurflen cofrestru angorfeydd yn ôl i'r Harbwr Feistr gyda 26 yn weddill heb eu dychwelyd.

(ii) Nodwyd pwysigrwydd bod y drefn isod i'w dilyn ynglyn â gosod angorfeydd i'r dyfodol:

- Bod y ffurflen briodol wedi ei chyflwyno i'r Harbwr Feistr
- Bod yr Harbwr Feistr yn nodi lleoliad yr angor
- Bod gan y contractwr neu'r perchnennog cwch dystysgrif angorfa cymwys yn unol â chanllawiau Is-ddeddfau'r Harbwr a bod y dystysgrif yn cael ei gyflwyno i'r Harbwr Feistr cyn bod y cwch yn cael ei lansio

Mae'r uchod yn hanfodol er mwyn sicrhau bod dogfennaeth ffurfiol a rheolaeth ar y dŵr mewn trefn.

(iii) Mewn ymateb i ymholiad gan aelod ynglyn â dyddiad cau i dderbyn ffurflenni, esboniodd y Swyddog Morwrol y disgwylid bod ffurflenni i fewn erbyn diwedd Chwefror fel bo modd i'r Harbwr Feistr a'r contractwr fod yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd. Nodwyd ymhellach, o safbwynt angorfeydd yn yr harbwr sydd heb ffurflen wedi ei gyflwyno, fe fydd y Gwasanaeth Morwrol yn eu tynnu allan os nad ydynt mewn defnydd.

(iv) Mewn ymateb i ymholiad o safbwynt angorfeydd ar ochr Fairbourne, bod 8 ar gael yn y gilfach.

(v) Nododd cynrychiolydd Pwyllgor Ras y Tri Chopa eu bod yn defnyddio angorfeydd blaen ac ol am pythefnos mewn lleoliad dŵr dwfn ac y byddai 3 angorfa ar gael i'r Gwasanaeth Morwrol wedi gweithgareddau'r ras orffen ar gyfer defnydd cychod ymwelwyr.

(vi) Croesawyd y cynnig uchod mewn egwyddor gan y Swyddog Morwrol ac yn cydnabod y byddai hyn yn ddefnyddiol ac awgrymwyd gan Aelod i'w ffurfioli ar ffurf cytundeb drwy'r Adran Gyfreithiol.

(vii) Mewn ymateb i bryder gan Aelod ynglyn â chryfder y trotiau a goruchwyliaeth y cychod, eglurodd y Swyddog Morwrol bod y trotiau mewn defnydd ers blynyddoedd ac yn gweithio'n llwyddiannus.

(viii) Adroddodd yr Harbwr Feistr fel a ganlyn o safbwynt y gymhorthyddion mordwyo

- Bwi y Fairway }
- Bwi y Bar } ar eu safleoedd
- Bwi Rhif 2 }
- Bwi Rhif 4 - oddi ar safle ac yn cael ei gynnal drwy adnewyddu'r gwydr ffibr
- Bwi Mewnol yr harbwr – oddi ar y safle ar hyn o bryd

(ix) Mewn ymateb i ymholiad gan aelod ynglyn â marciwr y beipen garthffos, esboniwyd bod Ty'r Drindod yn ymdrin â'r mater a bod y Gwasanaeth Morwrol yn tynnu sylw Dŵr Cymru at y pryder yn rheolaidd.

**Penderfynwyd: (a) Derbyn a nodi'r uchod.**

**(b) Gofyn i'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ystyried trafodaeth bellach gydag Adran Gyfreithiol y Cyngor ynglyn â ffurfioli defnydd / cynnal a chadw'r trotiau a gynigir gan Bwyllgor Ras y Tri Chopa.**

**(D) Trwyddedau Perchnogion a Cychwyr**

(i) Cyfeiriwyd at y rheoliadau ar gyfer trwyddedau perchnogion a chychwyr gan nodi bod telerau y drwydded yn holl bwysig. Nodwyd bod lleihad yn y gorffennol yn y nifer o gwynion a dderbyniwyd ynglyn â gweithrediadau'r ysgraffau ac eleni derbyniwyd cais gan 3 gweithredwr am wybodaeth ond hyd yma ni ddychwelwyd cais ffurfiol. Hyderir y byddir yn derbyn cais yn fuan o ystyried bod gwyliau'r Pasg yn weddol fuan ac angen i'r cychod gael eu harchwilio ar y tir a'r dŵr. Os na fyddir yn cydymffurfio â thelerau'r drwydded gellir dod â'r gytundeb i ben diwedd mis Mehefin.

(ii) Deallwyd na fyddai'r cwmni rheilffordd yn rhoi cais ar gyfer gweithredu ysgraff eleni.

(iii) Awgrymwyd y dylid cysylltu'r â'r tri gweithredwr sydd wedi cyflwyno cais am wybodaeth i'w hatgoffa am yr amserlen dynn a'r archwiliadau angenrheidiol. Nodwyd ymhellach bod gwasanaeth y fferi yn bwysig dros ben yn enwedig ar gyfer teuluoedd sy'n ymweld â'r ardal sy'n rhoi cyfle i ymwelwyr ymweld âg Abermaw a Fairbourne.

(iv) O safbwynt gwelliannau i'r plinth ar waelod grisiau'r fferi, esboniodd yr Harbwr Feistr bod rwbel wedi ei glirio a'i fod yn gyfyngedig i atgyweirio'r plinth oherwydd llanw isel. Fodd bynnag sicrhawyd ei fod yn cydymffurfio â rheoliadau'r Harbwr a bod yr ardal yn ddiogel.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(DD) Cyllidebau Harbyrau**

(i) Cyfeirwyd at y daenlen gyllideb a thywyswyd Aelodau drwy'r wybodaeth gan nodi bod cyfanswm gwariant rhedeg yr Harbwr o ran cynnal a chadw; offer a chelfi, costau staffio a thrafnidiaeth yn £79,612 gyda £52,485 wedi ei ymrwymo ac £26,823 yn weddill. Nodwyd bod targed incwm yr Harbwr yn £44,260 gyda £31,770 wedi dod i mewn a diffyg o £12,490 ar ddiwedd Chwefror 2015.

(ii) Nodwyd ymhellach gan y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod nifer o'r penawdau ar y daenlen yn amherthnasol megis lansio cwch pwer (£4,040) a'i fod yn wybyddus na fyddir yn cyrraedd y targed hwn. Bwriedir trafod ymhellach gyda'r Adran Gyllid ynglyn â'r penawdau a'r targedau.

(iii) Cyfeiriwyd hefyd at gymhariaeth gyda chyllideb Harbwr Aberdyfi a thynnwyd sylw at y ffioedd a thaliadau a oedd yn cynnig cynnydd o 1% eleni ynghyd â gwybodaeth am gofrestriadau cychod pwer a badau dŵr personol.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(E) Digwyddiadau**

(i) Rhestrwyd y gweithgareddau canlynol sydd i'w cynnal yn ystod y tymor:

- Ras y Tri Chopa – rhagwelai cynrychiolydd Pwyllgor y ras y byddai oddeutu 15 cwch yn cystadlu eleni. Derbyniwyd ymholiad gan dîm o'r Iseldiroedd a oedd yn awyddus i angori eu cwch rhyw pythefnos ynghynt na dyddiad y ras ond oherwydd diogelwch rhag gwyntoedd cryfion allasai ddigwydd ym mis Mehefin, awgrymwyd iddynt angori ym Mhwllheli.
- Penwythnos Regata Ceufadau – 6/7 Mehefin

- Cais am y Faner Las a chyfeiriwyd at y canlyniadau dŵr ymdrochi a oedd yn ffafriol

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(F) Consesiynau a Gwelliannau**

(i) **Gaeafu Cychod -** Adroddwyd y ceisir ffurfiol safleoedd addas ar gyfer gaeafu cychod ar dir y Cyngor er mwyn cynhyrchu incwm. Nodwyd ymhellach y gobeithir cynnal trafodaethau gyda Mr Colin Jones, Rheolwr Parcio a Diogelwch y Ffyrdd, ynglyn â chadw cychod ar y maes parcio tu ôl i'r Bad Achub a fyddai yn fodd o greu incwm i'r Cyngor.

(ii) Mewn ymateb i sylw wnaed gan Aelod ynglyn â'r uchod a'r posibilrwydd o roi pwyntiau trydan a gostyngiad i unigolion lleol, esboniodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod pwyntiau trydan wedi eu gosod o amgylch y cei ac yn anffodus ni ellir cyfiawnhau rhoi gostyngiad i bobl leol.

**Penderfynwyd: Gofyn i'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig drafod ymhellach gyda'r Rheolwr Parcio a Diogelwch y Ffyrdd er canfod lleoliad addas ar gyfer gaeafu cychod.**

(i) **Symud Tywod -** Adroddodd yr Uwch Beiriannydd bod gwaith ar y gweill i symud tywod a bod cyfarfod wedi ei drefnu gyda Chadeirydd y Pwyllgor Ymgynghorol hwn i drafod os y gellir datrys y broblem o'r tywod yn chwythu ar y promenad. Mewn ymateb i ymholiad wnaed, cadarnhaodd yr Uwch Beiriannydd na fyddir yn cludo'r tywod i ben pella'r promenad. Cadarnhaodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ymhellach bo unrhyw dywod sydd yn dod drosodd i'r maes parcio yn cael ei roi yn ôl ar y traeth gan y byddai unrhyw amhariaeth o halogiad olew yn fychan iawn.

(ii) **Ardal Storfa Morwrol -** Parheir i geisio cael trefn ar gompownd y pysgotwyr er mwyn sicrhau trefniant ffurfiol drwy gytundebau ac yn dilyn cael gwared â phob math o ysbwriel bod y storfa yn eithaf' taclus erbyn hyn

(iii) **Ysgolion -** Nodwyd y byddir yn adolygu'r ysgolion er sicrhau eu gwella. Fodd bynnag, nodwyd y byddir yn cosbi defnyddwyr cychod heb ffenders sydd yn malurio'r ysgolion.

(iv) **Pontwn -** Yng nghyd-destun rheolaeth a chynnal y pontwn, atgoffwyd y Pwyllgor pan sefydlwyd y pontwn bo dealltwriaeth y byddai'r Grwp lleol yn berchen y pontwn ac mai'r Gwasanaeth Morwrol fyddai'n rheoli a chasglu incwm gan ymwelwyr. Deallir nad yw'r Grwp lleol bellach mewn bodolaeth ac felly bo diffyg cyfrifoldeb am berchnogaeth y pontwn. Bu i'r Gwasanaeth Morwrol gyflogi Rock Engineering i ymgymryd â chryn dipyn o waith i atgyweirio'r pontwn ar gost o oddeutu £7,000. Gofynnwyd a fyddai modd i'r Cyngor Tref ariannu hanner y gost ar y cyd gyda'r Gwasanaeth Morowrol. Ychwanegodd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned bod cais wedi ei wneud fel rhan o gynllun cymunedol am grantiau ond nad oedd trefniadau cadarn mewn lle ar gyfer cynnal a chadw'r pontwn. Roedd hyn yn creu pryder o ran y costau cynnyddol ac yn ffodus eleni bo'r Gwasanaeth Morwrol wedi medru ei ariannu ond os bydd y pontwn yn cael ei falurio i'r dyfodol, ni fydd dewis ond ei dynnu allan.

(v) Mewn ymateb i'r uchod, derbyniwyd eglurhad gan Aelod bo'r cynllun wedi ei gynllunio gan gwmni peirianyddol cymwys gyda'r Clwb Hwylio yn cyflwyno cais am arian i'w ariannu ar ran y gymuned. Bu i'r cais lwyddo i gael caniatad a chytunodd Cyngor Gwynedd i reoli, cynnal a darparu atebolrwydd indemniad cyhoeddus ar gyfer y dyfodol. Yn dilyn ei osod bu trafodaethau ynglyn â gwirfoddolwyr i'w oruchwylio ond yn anffodus nid yw hyn wedi digwydd.

(vi) Nodwyd bod y pontwn yn adnodd gwerthfawr i Abermaw a diolchwyd i'r grwp am ei gwaith i sicrhau ei ddyfodiad.

(vii) Awgrymodd y Cadeirydd y gellir cael trafodaeth pellach ar gyfer dyfodol y pontwn fel rhan o'r cynllun i sefydlu corff elusennol ar gyfer gweithredu cynlluniau i Abermaw.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

(i) **Ardal Harbwr Aberamffra -** Adroddodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bo un ardal yn Aberamffra wedi ei gau oherwydd tirlithriad a'r Unedau i gyd wedi eu gwerthu.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

(i) **Consesiynau Traeth a Promenad -** Nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ei fod wedi derbyn cais ac mewn ymgynghoriad â'r Cyngor Tref yn hyn o beth a bwriedir trafod ymhellach gydag Aelodau lleol.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

(i) **Cynnal a Chadw Llithrfeydd** – Nodwyd bod cemeg pwrpasol wedi ei chwistrellu ar y llithrfa ac os yn llwyddiannus fe'i gyflwynir fel rhan o'r rhaglen waith flynyddol i gadw'r llithrfa yn lân.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(FF) Staff Harbwr**

(i) Adroddwyd:

- bod Mr Arthur Jones, wedi ei benodi i swydd Uwch Swyddog Harbyrau fel olynydd i Mr Ken Fitzpatrick, ac a fydd yn canolbwyntio ar waith yn Harbwr Porthmadog ac Abermaw
- y byddir yn penodi staff tymhorol i ddechrau o'r 1af Ebrill ymlaen
- o safbwynt y rhaglen waith cynnal a chadw, apeliwyd ar Aelodau'r Pwyllgor ddwyn unrhyw fater o bryder i sylw'r Harbwr Feistr.

(ii) Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod ynglyn â gwaith i'r grisiau wrth ymyl y dingis ar y cei, cadarnhaodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y byddai'n rhaid gosod ffens o'i amgylch os yw'r sefyllfa yn peri pryder ac y byddai'n rhaid rhoi ystyriaeth ar wahân i'r mater.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(G) Rheolaeth yr Harbwr**

Adroddodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod Rheolwr Prosiect yng ngwasanaeth Strategol a Gwella'r Cyngor yn ymchwilio i'r posibilrwydd o sefydlu cynllun ar gyfer rheolaeth yr Harbwr ac y bydd oddeutu 9 / 12 mis cyn gallu ystyried cynnig pendant. Nodwyd ymhellach bod bwriad gan Gadeirydd y Pwyllgor Ymgynghorol hwn i drafod gydag sefydliadau yn y dref os oes ganddynt ddiddordeb i weithredu gwasanaethau cymunedol.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

## 4. MATERION I'W HYSTYRIED AR GAIS AELODAU'R PWYLLGOR YMGYNGHOROL

### (a) Carthu a Chlirio Tywod

Nodwyd y byddai swyddogion perthnasol yn trafod yn lleol a oes modd clirio tywod ger wal y cei i symud y gwaddodion fydd yn cael eu cymryd ymaith gyda'r trai fel bo modd i broffil ger wal y cei gael ei wneud yn wastad fel nad yw'r cychod yn troi i ffwrdd o'r wal pan maent yn setlo ar ddŵr is*el.*

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

### (b) Faint o angorfeydd gwasanaeth fydd i ymwelwyr yr haf hwn?

*Nodwyd mai cyfanswm o 5 – tri gan Ras y Tri Chopa a 2 gan y Gwasanaeth Morwrol.*

### (c) Cynnydd ar arafu traffig?

Nododd y Cadeirydd ei fod wedi cynnal trafodaethau cychwynnol gyda Mr Iwan ap Trefor â gwelliannau amgylcheddol a diogelwch y ffyrdd yn Abermaw. Fe fyddir yn cysylltu ag ef eto ac adrodd ymhellach.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod a gofyn i'r Cadeirydd gysylltu ymhellach ag Mr Iwan ap Trefor ac anfon gwybodaeth ymlaen at Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol.**

### (ch) Beth yw'r goblygiadau i Gyngor Cymuned Arthog pe byddai Cyngor Tref Abermaw yn cymryd drosodd Harbwr Abermaw?

Nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig nad oedd yn rhagweld byddai cyfrifoldeb yn syrthio ar Gyngor Cymuned Arthog ac y byddir yn adrodd ar unrhyw ddatbl*ygiadau pellach.*

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

### (d) Beth yw cynlluniau Abermaw ynghylch Cynllun Llifogydd ac a oes ganddynt Wardeiniaid Llifogydd?

Nodwyd nad oedd y mater uchod yn gyfrifoldeb i'r Gwasanaeth Morwrol ond yn hytrach i Ymgynghoriaeth Gwynedd a Chyfoeth Naturiol Cymru. Awgrymwyd i'r mater gael ei drafod yng nghyfarfod nesaf y Cyngor Tref.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(dd) Mynediad Cerddwyr i'r traeth yn Fairbourne -** awgrymwyd i'r Aelod lleol drafod hyn ymhellach gyda'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig.

### (e) Pwynt Penrhyn – Cais am biniau

Cais gan Aelod lleol Cyngor Cymuned Arthog i gael biniau ym Mhwynt Penrhyn ac fe nododd ei fod wedi pwrcasu bin ar gyfer baw cwn ond bod angen trefniadau i'w wacau.
Amlygwyd ymhellach bryder bod faniau yn parhau i wersylla dros nos ar y llecyn tir a dim cyfleusterau cyhoeddus iddynt.

**Penderfynwyd: Gofyn i'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig drafod ymhellach gyda Chyngor Cymuned Arthog i ail-leoli bin ar gyfer baw cwn ym Mhwynt Penrhyn.**

**5. <u>DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF</u>**

**Penderfynwyd: (i) Nodi y cynhelir nesaf y Pwyllgor Ymgynghorol ar ddydd Iau, 15 Hydref 2015.**

**(ii) Gofyn i'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig gynnwys eitem ar raglen y cyfarfod nesaf i ystyried mynediad i gadeiriau olwyn i'r Promenad yn Abermaw.**

**CADEIRYDD.**

# Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw
# Harbour Consultative Committee

***15 Hydref / October 2015***

***Crynodeb o'r eitemau i'w trafod – Summary of items for discussion.***

1. ***Cod Diogelwch Harbyrau / Port Marine Safety Code***

   - Cod Diogelwch Harbyrau / Port Marine Safety Code
   - Materion Iechyd a Diogelwch / Health and Safety Issues
   - Ymgynghoriad Cenedlaethol / National Consultation

   ***https://www.gov.uk/government/consultations/harbour-closure-and-pilotage-function-removal-orders-draft-guidance***

2. ***Cyllidebau Harbyrau / Harbour Budgets***

   - Cyllidebau Terfynnol 2014/15 Final Account
   - Targedau Cyllideb Cyfredol 2015/16 Current Budget Targets
   - Gwariant ac Incwm Cyfredol at Diwedd Medi / Current Expenditure and Income to end of September
   - Ymgynghoriad Ffioedd Angorfeydd 2016 Fees and Charges Consultation

3. ***Staff Harbwr / Harbour Staff***

   - Adnoddau Staff / Staffing Resources
   - Rhaglen Waith Cynnal a Chadw Gaeaf / Winter Maintenance Works Programme

4. ***Mordwyo ac Angorfeydd***
   ***Navigation and Moorings***

   - Rheolaeth, Rheoliadau a Cofrestru Badau Dŵr Personol a Cwch Pŵer / Personal Watercraft and Powerboat Management, Regulations and Registration
   - Cymhorthion Mordwyo / Aids to Navigation
   - Bwiau Parth Traethau / Beach Zone Markers
   - Cynnal a Chadw Angorfeydd / Mooring Maintenace
   - Archwiliadau Tŷ'r Drindod / Trinity House Inspections

5. ***Cyflenwad Disel Coch / Red Diesel provision***

   - Ansawdd a manyleb tanwydd / Quality and specification of fuel

6. ***Llwyddiannau a Digwyddiadau / Achievements and Events***

7. ***Ystadegau Morwrol / Maritime Unit Statistics***

   - Angorfeydd Harbwr 2015 / Harbour Mooring 2015
   - Angorfeydd Harbyrau Eraill / Other Harbour Moorings
   - Ystadegau Cychod Cyffredinol / General Boat Statistics

**DG54** **Harbwr Abermaw**

| GRWP | CYFRIF | DISGRIFIAD |
|---|---|---|
| Cefnogaeth Canolog | 6699 | Ad-Daliadau Canolog (Cyllideb) |
| Cefnogaeth Canolog | | Sum: |

| GRWP | CYFRIF | DISGRIFIAD |
|---|---|---|
| Costau Cyfalaf | 6801 | Dibrisiant (W9601) |
| Costau Cyfalaf | | Sum: |

| GRWP | CYFRIF | DISGRIFIAD |
|---|---|---|
| Eiddo | 1000 | Cynnal & Chadw - Uned Eiddo |
| | 1016 | Asesiad Risg |
| | 1401 | Cynnal Tir.-Adran-Cyffredinol |
| | 1510 | Trydan |
| | 1710 | Trethi Cyffredinol |
| | 1731 | Dwr - Trethi Cynnwys Traenio |
| | 1780 | Ad-Yswiriant Adeiladau |
| | 1830 | Offer Diffodd Tan-Pensaer |
| | 1845 | Casglu Sbwriel-Preifat |
| Eiddo | | Sum: |

| GRWP | CYFRIF | DISGRIFIAD |
|---|---|---|
| Gwasanaethau A Chyflenwadau | 3100 | Offer A Chelfi-Gweithredol |
| | 3250 | Llyfrau A Chylchgronnau Gwein |
| | 3801 | Lifrau Staff |
| | 3939 | Defnyddiau Swyddfa |
| | 4145 | Is-Gontractwyr |
| | 4152 | Ffioedd Archwilio |
| | 4201 | Postio A Chludo Tal U/Gyrchol |
| | 4210 | Teleffon |
| | 4220 | Teleffonau Symudol |
| | 4263 | Radio Symudol-Trwydded |
| | 4852 | Ad-Yswir Colled Incwm/Rhent |
| | 4890 | Ad-Yswiriant Amrywiol |
| Gwasanaethau A Chyflenwadau | | Sum: |

| GRWP | CYFRIF | DISGRIFIAD |
|---|---|---|
| Gweithwyr | 0130 | Gweithwyr Gpt & Ch - Cyffred |
| | 0230 | Gweithwyr Gpt & Ch - Cyffred |
| | 0330 | Gweithwyr Gpt & Ch - Cyffred |
| | 0601 | Pensiwn A Dalwyd |
| | 0611 | Pensiwn/Gwylia Di-Dal |
| | 0709 | Tanysg I Gyrff Proffesiynol |
| | 0731 | Lwfans Teliffon |

| | | |
|---|---|---|
| | 0990 | Ad-Yswiriant Atebolrwydd |
| Gweithwyr | | Sum: |

| | | |
|---|---|---|
| Incwm | 7890 | Llyfrynnau & Chofroddion |
| | 7983 | Gwerthu-Petrol/Diesel |
| | 7994 | Gwerthu - Tocynnau Trydan |
| | 8231 | Angorfeydd Parhaol |
| | 8232 | Angorfeydd I Ymwelwyr |
| | 8233 | Tollau Harbwr |
| | 8234 | Lansio Cwch Power |
| | 8235 | Ffioedd Gaeafu |
| | 8462 | Trwydded-Amrywiol |
| | 8690 | Rhenti - Tir/Adeiladau/Cyff. |
| | 9597 | Credyd Pensiynau(*6497) |
| Incwm | | Sum: |

| | | |
|---|---|---|
| Trafnidiaeth | 2100 | Costau Rhedeg-Cerbydau/Peir |
| | 2710 | Lwfansau Ceir - Cyffredinol |
| Trafnidiaeth | | Sum: |

| | | |
|---|---|---|
| | | Sum: |

| CYLLIDEB |
| ---: |
| 7,150 |
| **7,150** |

| |
| ---: |
| 11,900 |
| **11,900** |

| |
| ---: |
| 5,260 |
| 0 |
| 1,920 |
| 1,690 |
| 1,950 |
| 1,050 |
| 780 |
| 0 |
| 620 |
| **13,270** |

| |
| ---: |
| 4,110 |
| 3,000 |
| 390 |
| 390 |
| 1,310 |
| 0 |
| 110 |
| 0 |
| 100 |
| 150 |
| 10 |
| 660 |
| **10,230** |

| |
| ---: |
| 40,770 |
| 3,040 |
| 3,670 |
| 580 |
| 20 |
| 50 |
| 330 |

| |
|---|
| 720 |
| **49,180** |

| |
|---|
| (1,970) |
| (1,460) |
| (40) |
| (25,760) |
| (1,270) |
| (2,540) |
| (4,120) |
| (2,630) |
| 0 |
| (5,310) |
| (1,290) |
| **(46,390)** |

| |
|---|
| 510 |
| 260 |
| **770** |

| |
|---|
| **46,110** |

**DG55** **Harbwr Aberdyfi**

| GRWP | CYFRIF | DISGRIFIAD |
|---|---|---|
| Cefnogaeth Canolog | 6699 | Ad-Daliadau Canolog (Cyllideb) |
| Cefnogaeth Canolog | | Sum: |

| | | |
|---|---|---|
| Costau Cyfalaf | 6801 | Dibrisiant (W9601) |
| Costau Cyfalaf | | Sum: |

| | | |
|---|---|---|
| Eiddo | 1000 | Cynnal & Chadw - Uned Eiddo |
| | 1200 | Cynnal A Chadw Adrannau |
| | 1401 | Cynnal Tir.-Adran-Cyffredinol |
| | 1510 | Trydan |
| | 1710 | Trethi Cyffredinol |
| | 1731 | Dwr - Trethi Cynnwys Traenio |
| | 1780 | Ad-Yswiriant Adeiladau |
| | 1830 | Offer Diffodd Tan-Pensaer |
| | 1845 | Casglu Sbwriel-Preifat |
| Eiddo | | Sum: |

| | | |
|---|---|---|
| Gwasanaethau A Chyflenwadau | 3100 | Offer A Chelfi-Gweithredol |
| | 3130 | Offer A Chelfi - Pryniant |
| | 3172 | Arwyddion Symudol - C & Ch |
| | 3810 | Dillad/Esgidiau Diogelwch |
| | 3939 | Defnyddiau Swyddfa |
| | 4152 | Ffioedd Archwilio |
| | 4201 | Postio A Chludo Tal U/Gyrchol |
| | 4210 | Teleffon |
| | 4220 | Teleffonau Symudol |
| | 4240 | Rhwydweithiau-Llinell Data |
| | 4263 | Radio Symudol-Trwydded |
| | 4852 | Ad-Yswir Colled Incwm/Rhent |
| | 4890 | Ad-Yswiriant Amrywiol |
| Gwasanaethau A Chyflenwadau | | Sum: |

| | | |
|---|---|---|
| Gweithwyr | 0130 | Gweithwyr Gpt & Ch - Cyffred |
| | 0150 | Gweithwyr Llaw |
| | 0230 | Gweithwyr Gpt & Ch - Cyffred |
| | 0250 | Gweithwyr Llaw |
| | 0330 | Gweithwyr Gpt & Ch - Cyffred |
| | 0350 | Gweithwyr Llaw |

| | | |
|---|---|---|
| | 0611 | Pensiwn/Gwylia Di-Dal |
| | 0709 | Tanysg I Gyrff Proffesiynol |
| | 0731 | Lwfans Teliffon |
| | 0990 | Ad-Yswiriant Atebolrwydd |
| Gweithwyr | | Sum: |

| | | |
|---|---|---|
| Incwm | 8231 | Angorfeydd Parhaol |
| | 8232 | Angorfeydd I Ymwelwyr |
| | 8233 | Tollau Harbwr |
| | 8234 | Lansio Cwch Power |
| | 8235 | Ffioedd Gaeafu |
| | 8237 | Lansio Jet Ski |
| | 8690 | Rhenti - Tir/Adeiladau/Cyff. |
| | 9597 | Credyd Pensiynau(*6497) |
| Incwm | | Sum: |

| | | |
|---|---|---|
| Trafnidiaeth | 2100 | Costau Rhedeg-Cerbydau/Peir |
| | 2710 | Lwfansau Ceir - Cyffredinol |
| Trafnidiaeth | | Sum: |

| | | |
|---|---|---|
| | | Sum: |

| CYLLIDEB |
| ---: |
| 7,070 |
| **7,070** |

| |
| ---: |
| 3,990 |
| **3,990** |

| |
| ---: |
| 4,510 |
| 14,410 |
| 2,030 |
| 1,160 |
| 120 |
| 340 |
| 280 |
| 0 |
| 460 |
| **23,310** |

| |
| ---: |
| 6,150 |
| 0 |
| 0 |
| 390 |
| 370 |
| 0 |
| 110 |
| 0 |
| 100 |
| 710 |
| 150 |
| 10 |
| 660 |
| **8,650** |

| |
| ---: |
| 39,610 |
| 0 |
| 2,290 |
| 0 |
| 8,880 |
| 0 |

| |
|---|
| 50 |
| 50 |
| 330 |
| 670 |
| **51,880** |

| |
|---|
| (17,570) |
| (2,350) |
| (3,500) |
| (8,050) |
| (870) |
| 0 |
| (890) |
| (1,690) |
| **(34,920)** |

| |
|---|
| 490 |
| 130 |
| **620** |

| |
|---|
| **60,600** |

**Adroddiad Harbyrau Cyngor Gwynedd**

**Cyfrif Incwm a Gwariant 2014-15**

| | Cyllideb Terfynol 2014-15 £ | Cyfrifon Terfynol 2014-15 £ | Gwahaniaeth Gor (Tan) wariant £ |
|---|---|---|---|
| **Gwariant** | | | |
| Gweithwyr | | | |
| Cyflogau | 170,690 | 129,566 | -41,124 |
| Hyfforddiant | 0 | 499 | 499 |
| Yswiriant Atebolrwydd | 3,210 | 1,108 | -2,102 |
| Amrywiol Eraill | 2,250 | 1,607 | -643 |
| | | | |
| Adeiladau | | | |
| Cynnal a Chadw | 62,510 | 9,247 | -53,263 |
| Offer | 0 | 818 | 818 |
| Contractwyr | 0 | 4,882 | 4,882 |
| Ynni | 7,110 | 3,810 | -3,300 |
| Trethi | 16,850 | 16,843 | -7 |
| Dwr | 2,270 | 2,970 | 700 |
| Lês yr Arfordir | 4,330 | 1,100 | -3,230 |
| Glanhau | 2,630 | 2,942 | 312 |
| Casglu Sbwriel | 2,420 | 3,629 | 1,209 |
| Yswiriant Adeiladau | 2,970 | 517 | -2,453 |
| | | | |
| Cludiant | | | |
| Costau Rhedeg Cerbydau (cynnwys cychod) | 2,460 | 608 | -1,852 |
| Costau Teithio | 510 | 64 | -446 |
| | | | |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | | | |
| Offer - cynnwys diogelwch | 20,390 | 26,710 | 6,320 |
| Arolygiadau Tanfor | 7,010 | 1,240 | -5,770 |
| Arwyddion | 0 | 1,030 | 1,030 |
| Cynnal Cychod | 3,000 | 3,525 | 525 |
| Banerau | 0 | 263 | 263 |
| Gwasanaethu'r Angorfeydd | 0 | 4,847 | 4,847 |
| Ffioedd gan gynnwys Ymgynghorwyr | 0 | 25,331 | 25,331 |
| Trwyddedau | 600 | 300 | -300 |
| Deunyddiau Swyddfa a Rhwydwaith | 5,140 | 4,685 | -455 |
| Amrywiol | 1,460 | 4,230 | 2,770 |
| | | | |
| Cefnogaeth Canolog | | | |
| Ad-Daliadau Costau Canolog | 31,820 | 31,820 | 0 |
| | | | |
| **Cyfanswm Gwariant** | **349,630** | **284,191** | **-65,439** |
| | | | |
| Incwm | | | |
| Ffioedd | -220,490 | -186,252 | 34,238 |
| Rhenti | -15,270 | -15,441 | -171 |
| Cyfraniad o Gronfa Adrannol | 0 | -18,504 | -18,504 |
| | | | |
| **Cyfanswm Incwm** | **-235,760** | **-220,196** | **15,564** |
| | | | |
| **Cyfanswm Gwariant Net** | **113,870** | **63,994** | **-49,876** |

**Prif Wahaniaethau**

**Gweithwyr - costau cyflogaeth - tanwario (£41,124))**

Tanwariant yn bennaf oherwydd swyddi gwag a trosiant staff. Darpariaeth yn y gyllideb am 6.5 swydd llawn amser. Y gwasanaeth wedi rhewi rhai swyddi i gwrdd a bwlch yn y targedau incwm yn y Gwasanaeth Morwrol. Tanwariant wedi golygu fod staff wedi ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol. Harbwrfeistr newydd wedi ei gyflogi yn Ionawr 2015.

**Adeiladau - cynnal a chadw - tanwario (£53,263)**

Cynnal a Chadw Adeiladau o dan reolaeth yr Adran Eiddo wedi tanwario £14,727. Gweddill o'r tanwariant,sef £38,536 yn ariannu diffyg incwm yn yr Harbyrau ynghyd a gwariant unwaith ac am byth ar bennawdau eraill yn ystod y flwyddyn.

**Cyflenwadau a Gwasnaethau - Ffioedd a Ffioedd Ymgynghorwyr gorwario £25,331**

Gwaith wedi ei gomisiynu i gwmni ARUP ar Strategaeth Carthu Harbwr Pwllheli - cyfraniad o Gronfa yr Adran yn cyfranu £18,504 tuag at y costau.

**Incwm - Ffioedd gorwario £34,238**

Diffyg incwm yn y ffioedd angorfeydd yn 2014-215 yn erbyn targed o £220,490

# *Harbwr Abermaw Harbour*
# *2016/17*

| **Eithrio T.A.W** | | **2015-16**<br><br>**1%** | | **2016-17**<br><br>**1%** | **Prices exclude V.A.T** |
|---|---|---|---|---|---|
| Trwydded angorfa blynyddol fesul medr, neu rhan o fedr + Tollau Harbwr – Cychod Pleser | **-** | **27.74** | **-** | **28.02** | Mooring licence per metre per annum, or part of metre + Harbour Dues - Pleasure Craft |
| Tollau Harbwr y fedr – pob llestr | **-** | **5.00** | **-** | **5.05** | Harbour Dues per meter – all vessels |
| | | | | | |
| **Taliadau llithrfa cychod pŵer dros 10HP (eithrio BDP)** | - | **Fel rhestr lansio** | - | **Fel rhestr lansio** | **Slipway charges power boats over 10HP (not PW)** |
| **Cychod bychain, peiriant 10HP**<br>Dyddiol<br>Tymhorol | **-**<br>**-**<br>**-** | **-**<br>**5.89**<br>**46.29** | **-**<br>**-**<br>**-** | **-**<br>**8.33**<br>**50.00** | **Small boats engine, max 10HP**<br>Daily<br>Seasonal |
| **Cwch ymwelwyr – Dyddiol neu rhan o ddiwrnod** | | | | | **Visiting Vessels – Daily or part of day** |
| Cwch Ymweld-Daliwr Angorfa Harbyrau Gwynedd | **-** | **5.00** | **-** | **5.00** | Visiting Vessels-Gwynedd Harbour Mooring Holders |
| Cwch Ymweld-Pob Cwch Pleser arall | **-** | **6.67** | **-** | **8.33** | Visiting Vessels-All other pleasure vessels |
| Cychod cario teithwyr **y fedr** + Tollau Harbwr | **-** | **24.02** | **-** | **24.26** | Passenger carrying vessels **per metre** + Harbour Dues per meter |
| | | | | | |
| Pysgota/Siarter/Masnachol y flwyddyn + Tollau Harbwr y fedr | - | **24.02** | - | **24.26** | Fishing/Charter/Commercial per meter + Harbour Dues per meter |
| Cychod yn ymweld a'r harbwr y dydd neu rhan o'r dydd | **-** | **53.59** | **-** | **54.17** | Commercial vessels visiting per day or part of day |
| | | | | | |
| Ffioedd Compownd Harbwr (y flwyddyn) – Pysgotwyr llawn amser<br>Ffioedd Compownd Harbwr (y flwyddyn) – Defnyddwyr masnachol harbwr<br>Ffioedd Compownd Harbwr (y flwyddyn) – Defnyddwyr masnachol eraill<br>Ffi cosb – Glanhau Ysbwriel<br>Gordal-defnydd tir tu allan i'r ardal benodedig y M² yr wythnos. | -<br>-<br>-<br>-<br>- | **291.20**<br>**313.76**<br>**362.53**<br>**92.12**<br>**4.20** | -<br>-<br>-<br>-<br>- | **294.11**<br>**316.87**<br>**366.16**<br>**93.04**<br>**4.24** | Harbour compound (per annum) – Full time fishermen<br>Harbour Compound (per annum) – Harbour commercial users<br>Harbour Compound (per annum) – Other commercial users.<br>Penalty Costs – Removal of refuse/<br>Surcharge – additional storage area outside of allocated plot - per M² per week. |
| | | | | | |
| Storio tymor yr haf ar diroedd harbwr y fedr. Ffi fesul wythnos neu rhan wythnos 01 Ebrill – 30 Medi<br>Storio tymor y gaeaf ar dir yr harbwr y fedr. Ffi fesul y mis neu unrhyw rhan o fis 01 Hydref – 31 Mawrth – isafswm 7 medr | -<br><br>- | **5.49**<br><br>**5.54** | -<br><br>- | **5.60**<br><br>**5.60** | Summer Storage on harbour land per meter per week or part of week 01 April – 30 September<br>Winter Storage on harbour land per metre per month or any part of month 01 October – 31 March – min 7mtrs |
| Rhent llogi angorfa Abermaw | - | **246.92** | - | **249.39** | Mooring Rental Abermaw |
| Diddymu cais angorfa. Gorddewisol | **Rheol 1/18** | **Rule 1/18** | **Rheol 1/18** | **Rule 1/18** | Cancellation of mooring application. Discretionary |

***Harbwr Aberdyfi Harbour***
***2016/17***

| Eithrio T.A.W | | 2015-16<br>1% | | 2016-17<br>1% | Prices exclude V.A.T |
|---|---|---|---|---|---|
| Trwydded angorfa blynyddol fesul medr, neu rhan o fedr + Tollau Harbwr. Cychod Pleser | - | **27.74** | - | **28.02** | Mooring licence per metre per annum, or part of metre + Harbour Dues. Pleasure Craft |
| Tollau Harbwr y fedr – pob llestr | - | **5.00** | - | **5.05** | Harbour Dues per meter – all vessels |
| | | | | | |
| **Taliadau llithrfa cychod pŵer dros 10HP (eithrio BDP)** | - | **Fel rhestr lansio** | - | **Fel rhestr lansio** | **Slipway charges power boats over 10HP (not PW)** |
| **Cychod bychain peiriant 10HP**<br>Dyddiol<br>Tymhorol | -<br>-<br>- | **-**<br>**5.89**<br>**46.29** | -<br>-<br>- | **-**<br>**8.33**<br>**50.00** | **Small boats engine max 10HP**<br>Daily<br>Seasonal |
| ***Cwch ymwelwyr – Dyddiol neu rhan o ddiwrnod*** | | | | | ***Visiting Vessels – Daily or part of day*** |
| Cwch Ymweld-Daliwr Angorfa Harbyrau Gwynedd | - | **5.00** | - | **5.00** | Visiting Vessels-Gwynedd Harbour Mooring Holders |
| Cwch Ymweld-Pob Cwch Pleser arall | - | **6.67** | - | **8.33** | Visiting Vessels-All other pleasure vessels |
| Cychod cario teithwyr **y fedr** + Tollau Harbwr | - | **24.02** | - | **24.26** | Passenger carrying vessels **per metre** + Harbour Dues per meter |
| | | | | | |
| **Pysgota/Siarter/Masnachol y flwyddyn + Tollau Harbwr fesul medr y flwyddyn** | - | **24.02** | - | **24.26** | **Fishing/Charter/Commercial per meter + Harbour Dues per meter per annum** |
| Cychod masnachol yn ymweld a'r harbwr y dydd neu rhan o'r dydd | - | **53.59** | - | **54.17** | Commercial vessels visiting per day or part of day |
| | | | | | |
| Storio tymor yr haf yn ardal y Cei neu diroedd eraill **y fedr yr wythnos neu rhan wythnos 01 Ebrill – 30 Medi**<br>Storio tymor y gaeaf yn ardal y Cei neu diroedd eraill **y fedr y mis neu unrhyw rhan o fis 01 Hydref – 31 Mawrth – isafswm ffi 7 medr** | -<br><br>- | **5.49**<br><br>**3.45** | -<br><br>- | **5.54**<br><br>**3.48** | Summer Storage on Quay or other land **per meter per week or part of week 01 April – 30 September**<br>Winter Storage on Quay or other land **per metre per month or any part of month - 01 October – 31 March – min charge 7 meters.** |
| Rhent Llogi Angorfa Aberdyfi | - | **246.92** | - | **249.39** | Mooring Rental Aberdyfi |
| | | | | | |
| Diddymu cais angorfa | Gwelir isod | See below | Gwelir isod | See below | Cancellation of mooring application |
| Diddymu cais angorfa. Gorddewisol | Rheol 1/18 | Rule 1/18 | Rheol 1/18 | Rule 1/18 | Cancellation of mooring application. Discretionary. |